# Fforwm Rheoli Tir Cymru

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 7 Mehefin 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Bob Vaughan, CNC

Ruth Jenkins, CNC

Dom Driver, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Mared Jones, CFfI Cymru

Martyn Evans, CNC

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Simon Bareham, CNC

Fraser McAuley, CLA

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Dr Ceris Jones, NFU (Eitem 3)

Clive Walmsley, CNC (Eitem 4)

Jon Westlake, Llywodraeth Cymru (Eitem 6)

Emelia Bevan, Llywodraeth Cymru

Dr George Fisher, Coleg Cambria

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Tim Kirk, Confor

Mark Alexander, Llywodraeth Cymru

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Croesawodd y Cadeirydd Mared Jones (Cyfarwyddwr Dros Dro CFfI Cymru) a Dr George Fisher (Coleg Cambria) i'r cyfarfod

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.

4. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

5. Adolygodd y Grŵp gofnodion cyfarfod mis Mawrth 2021, a chadarnhau eu bod yn gofnod cywir. Mae cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno arnynt yn ffurfiol, ay byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC

6. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin ac adolygodd y grŵp y Log Gweithredu. Cafwyd y sylwadau canlynol:

    - Chwefror PG02: Mark Alexander i ofyn am ragor o wybodaeth am y pecyn gwybodaeth brys  - pryd y bydd ar gael a'r wybodaeth y mae'n debygol o'i chynnwys.

    - Nid oedd Mark Alexander, Llywodraeth Cymru, yn gallu ymuno â'r cyfarfod heddiw. Nododd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod hwn wedi bod yn bwynt gweithredu hirdymor a oedd yn ymwneud ag adolygiad cyflym o dystiolaeth yr oedd tîm ERAMMP i fod i'w gynnal ynghylch plannu coed yng Nghymru. Dywedodd Rachel iddi godi hyn i ddechrau, ond mae'r cais wedi colli pwynt ei neges erbyn hyn ac awgrymodd nad oes angen y pwynt gweithredu bellach.

- Rhagfyr PG03: Rhannu gwybodaeth â’r aelodau am safbwyntiau CNC ynghylch datblygu cynlluniau yn y dyfodol - yn cyfeirio at y safbwyntiau a oedd yn cael eu datblygu i’w cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o ddatblygiad y Papur Gwyn Amaethyddol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

    - Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn dal i ddarparu llawer o wybodaeth i Lywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu'r SFS. Awgrymodd Bob y gellid trefnu gweithdy i aelodau’r Fforwm drafod rhai o'r safbwyntiau ar y cyd a chasglu rhai syniadau. Cytunodd Ruth Jenkins, CNC, fod cyfle i gael cyfarfod ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chael sesiwn yn un o'r cyfarfodydd hyn. Gofynnodd Ruth a yw CNC wedi rhannu'r ymateb i'r ymgynghoriad gydag aelodau’r Fforwm. Dywedodd Bob fod yr wybodaeth hon wedi'i rhannu.

- Rhagfyr PG07: Ychwanegu Draenio Cynaliadwy at agenda'r cyfarfod nesaf.

    - Dywedodd Bronwen Martin, CNC, fod y Papur Diweddaru wedi sôn bod gweithdy Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn cael ei gynnig fel sesiwn ar y cyd gydag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) i'w fynychu. Rhowch unrhyw awgrymiadau a sylwadau i helpu i lywio cynnwys a strwythur y sesiwn arfaethedig, gan gynnwys astudiaethau achos, i Bronwen. Bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu cyn bo hir. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y gweithdy hwn yn cael ei gynnal ar ôl yr haf (yn ystod mis Medi efallai.) Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, ei bod yn falch o weld bod y darn hwn o waith yn cael ei ddatblygu. Gofynnodd Rachel sut y bydd y gweithdy'n cyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau, a all lywio adolygiad Llywodraeth Cymru ac a ellir sicrhau bod dull integredig yn cael ei fabwysiadu. Cytunodd Bob Vaughan, CNC, â sylwadau Rachel a rhoddodd sicrwydd i Rachel y bydd y bobl briodol o Gangen Dŵr Llywodraeth Cymru yn cael eu gwahodd i'r gweithdy.

- Rhagfyr PG08: Zoe Henderson a Chris Blake i friffio Syr David Henshaw ar yr adroddiad, ac a allai hyn fod yn flaenoriaeth o dan yr Adferiad Gwyrdd?

    - Dywedodd Zoe fod diweddariad wedi'i roi i Syr David Henshaw. Bydd Adferiad Gwyrdd yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Medi.

- Mawrth PG02: Bob Vaughan, CNC, a Tim Kirk, Confor, i drafod 'coetir heb ei reoli' a gweld beth y gellir ei wneud

    - Soniodd John Browne, CNC, fod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i sicrhau bod grantiau a chyllid ar gael ar gyfer hyn. Dylai'r SFS fynd i'r afael â hyn hefyd. Bydd John yn cysylltu â Tim Kirk i drafod y pwnc hwn.

- Mawrth PG03: Huwel Manley, CNC, i roi Anthony Geddes, Confor, mewn cysylltiad â thîm Datganiad Ardal y Canolbarth i helpu i ddatblygu hyn a threialu adnodd coedwigaeth.

    - Dywedodd Anthony Geddes, Confor, fod llwyfan ar gyfer hyn, ac y gellir cau'r pwynt gweithredu a darparu unrhyw ddiweddariadau yn ôl yr angen.

- Mawrth PG06: Bob Vaughan, CNC, i siarad â Sarah Williams a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adferiad Gwyrdd i'r grŵp yng nghyfarfod mis Mehefin

    - Dywedodd Bob ei fod wedi bod mewn cysylltiad â Sarah, ond nad oes diweddariad ar gael eto. Dywedodd Marc Williams, CNC, ei fod yntau hefyd wedi cysylltu â Sarah i roi gwybod iddi y bydd Adferiad Gwyrdd yn cael ei ychwanegu at yr agenda ar gyfer mis Medi ac efallai y gellid gwahodd Syr David Henshaw i'r cyfarfod.

- Mawrth PG09: Bob Vaughan i holi am amserlen ar gyfer y gwaith ffosffad a'i rhannu gyda'r grŵp.

    - Dywedodd Bob fod y gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo ac yn datblygu'n dda. Awgrymodd Ruth Jenkins, CNC, y gellir rhoi diweddariad manylach ar y prosiect yn adran Diweddariadau CNC (Eitem 8.) Soniodd Ruth fod nifer o becynnau gwaith wedi'u paratoi, fod prosiect wedi'i sefydlu, a grŵp goruchwylio wedi ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd wedi'i gynnal gyda datblygwyr a gwaith yn cael ei wneud gydag is-grŵp y grŵp goruchwylio sy'n edrych yn benodol ar gynllunio a materion cynllunio. Soniodd Ruth fod diweddariad yn y canllawiau sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan CNC.

- Mawrth PG12: Bob Vaughan, CNC, ac Anthony Geddes i drafod dogfen Creu Coetir gyda John Travis a chael trafodaeth ynghylch pa mor bell y gellir mynd â'r ddogfen.

    - Dywedodd Bob ac Anthony nad ydynt eto wedi cwrdd â John ond y byddant yn rhoi adborth yng nghyfarfod mis Medi.

7. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oes ganddynt unrhyw beth yr hoffent ei grybwyll ynglŷn â'r wybodaeth yn y Papur Diweddaru. Soniodd Zoe fod y Papur Diweddaru yn cynnwys crynodeb o ymatebion Arolwg y Fforwm a diolchodd i'r grŵp am eu hadborth, eu hawgrymiadau a'u syniadau ar sut i ddatblygu'r Fforwm. Dywedodd Zoe yr hoffai ddod yn ôl at ymatebion yr arolwg yn y cyfarfod nesaf ac awgrymodd y gallai'r grŵp ystyried a ddylid ehangu aelodaeth y Fforwm i gynnwys sefydliadau eraill.

8. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill ynghylch cynnwys y Papur Diweddaru.

## Eitem 3 Cyflwyniad Sero-net NFU

9. Croesawodd y Cadeirydd Dr Ceris Jones o’r NFU i'r cyfarfod a diolchodd iddi am gytuno i roi cyflwyniad i'r grŵp. Diolchodd Zoe hefyd i Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, am helpu i drefnu i Ceris ymuno â'r cyfarfod.

10. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Dr Ceris Jones, NFU i drafod rôl amaethyddiaeth o ran lleihau allyriadau a chyflawni Sero-net.

    NFU Cyflawni sero-net: ymateb i'r her newid hinsawdd

11. Diolchodd Dr Ceris Jones, NFU, i'r grŵp am y gwahoddiad i roi cyflwyniad yn y cyfarfod. Dechreuodd Ceris drwy roi trosolwg byr o'r cyflwyniad drwy ateb rhai cwestiynau gan gynnwys beth yw ystyr 'Sero-net', sut mae'n edrych, a allwn ni ei gyflawni, sut y gellir ei roi ar waith a beth all eraill ei wneud i helpu i gyflawni Sero-net.

12. Dywedodd Ceris fod rhywfaint o ddryswch yn aml ynglŷn â beth yw Sero-net. Mae Sero-net yn ymwneud â chydbwysedd; ceisio cydbwyso allyriadau Ffermio Prydain, lleihau allyriadau a defnyddio'r gallu i storio carbon mewn llawer o wahanol ffyrdd. Drwy gyrraedd nod Sero-net 2040, gallwn hefyd wneud cyfraniad sylweddol tuag at helpu'r DU i gyrraedd ei tharged ei hun ar gyfer yr economi yn gyffredinol.

13. Soniodd Ceris fod allyriadau o amaethyddiaeth yn wahanol iawn i sectorau eraill yr economi ac mae'r NFU wedi ceisio cynnwys rhywfaint o'r meddylfryd hwnnw yn y nod a defnyddio'r ffaith bod ein hallyriadau'n llawer mwy cylchol na sectorau eraill.

14. Esboniodd Ceris fod nod Sero-net yr NFU yn dibynnu ar weithgareddau, camau gweithredu a pholisïau ar draws tair colofn:

    - Colofn 1 – yr un bwysicaf o bosib. Mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn ymrwymo i leihau ei hallyriadau ei hun. Gwneir hyn drwy:
    - Hybu cynhyrchiant a lleihau allyriadau
    - Colofn 2 - gwella, cynnal, a hirdymor:
    - Storio carbon: gallu'r sector i storio ar y fferm drwy bridd, gwrychoedd neu goed
    - Colofn 3 - tynnu carbon allan o gylchrediad am gyhyd â phosibl:
    - Ynni adnewyddadwy a'r bioeconomi

15. Soniodd Ceris fod y pethau hyn yn wych mewn theori, ond maent yn anodd yn ymarferol. Ni fydd y ffordd y mae ffermwyr yn rhoi'r darnau hyn at ei gilydd yr un fath ar gyfer pob busnes fferm, gan eu bod i gyd mor wahanol. Mae hwn yn fusnes o fân enillion ac yn sicr o ran cynhyrchiant, nid oes un mesur a fyddai'n sicrhau gostyngiad mawr mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Felly, bydd angen cymysgedd o’r mesurau hyn fel y bo'n briodol er mwyn i'r system ffermio gyflawni'r nod. Mae’n bwysig dweud nad yw'n ymwneud â lleihau ein gallu i gynhyrchu bwyd.

16. Defnyddiodd Ceris graff i esbonio sut y gallwn gyrraedd y nod. Roedd y graff yn dangos dau far; un yn nodi'r allyriadau o amaethyddiaeth y DU yn 2017 a'r llall yn nodi sut y cyflawnir y nod gan y tair colofn. Mae Colofn Un o welliannau i gynhyrchiant yn helpu i gyflawni tua chwarter y nod, mae Colofn Dau o storio carbon ar dir fferm hefyd yn helpu i gyflawni tua chwarter y nod ac mae Colofn Tri o fesurau seiliedig ar fioeconomi yn helpu i gyflawni tua hanner y nod. Dywedodd Ceris ei bod yn bwysig nodi bod hyn yn brawf o gysyniad gan ei fod yn dangos mewn theori y gallwn gyrraedd Sero-net. Mae'n bwysig cydnabod hefyd bod hyn yn seiliedig ar yr hyn a wyddom yn awr, ac wrth i dechnoleg a gwyddoniaeth newydd ddod i'r amlwg, mae'r cydbwysedd rhwng y tair colofn yn debygol o newid gydag amser. Ni ddisgwylir i bob fferm gyrraedd Sero-net, ond dim ond drwy gydweithio ar draws y sector y cyflawnir y nod.

17. Soniodd Ceris fod gan NFU grŵp llywio Sero-net gweithredol sydd wedi bod yn gwneud llawer o waith yn meddwl am bolisi perthnasol a'r ffordd y gallwn helpu ein haelodau. Mae'n syfrdanol faint o ffermwyr sydd am wybod beth y gallant ei wneud a beth yw eu man cychwyn. Mae rhai o aelodau'r grŵp llywio wedi bod yn profi'r ystod o gyfrifianellau ar y fferm sydd ar gael am ddim i geisio rhoi aelodau eraill ar y trywydd cywir, deall pa gyfrifianellau a allai fod yn well ar gyfer rhai sectorau na'i gilydd a nodi rhai o anfanteision y cyfrifianellau.

18. Dywedodd Ceris fod yna hefyd Banel Cynghori ar Wyddoniaeth sydd yn cynnwys arbenigwyr o fri cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi cytuno i'n helpu ar ein taith.

19. Dywedodd Ceris fod llyfryn o 26 o astudiaethau achos Sero-net wedi'i gyhoeddi y llynedd. Roedd hwn yn cynnwys enghreifftiau o Gymru a Lloegr, mewn gwahanol sectorau ac ar wahanol raddfeydd. Mae'r NFU wedi ceisio ateb rhai cwestiynau syml am yr hyn y mae ffermwyr yn ei wneud a pha rwystrau sydd wedi eu goresgyn. Rhaid pwysleisio mai taith yw hon, felly mae'r llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae'r ffermwyr hyn yn bwriadu ei wneud nesaf.

20. Mae'r NFU wedi bod yn annog ffermwyr i ymwneud ag ymgyrch o'r enw '#pledge2040' gyda map ar-lein lle gall aelodau wneud addewid ar ran eu fferm ar y map a rhoi gwybod i ni beth maent eisoes yn ei wneud a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud. Mae'r NFU am gael cydnabyddiaeth i ffermwyr am yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, gan dynnu sylw at y ffaith bod ffermwyr eisiau gwneud mwy hefyd.

21. Daeth Ceris â'i chyflwyniad i ben drwy ddweud bod yr NFU wedi ei gwneud yn glir na allant wneud hyn ar eu pennau eu hunain a bydd yn dibynnu ar bawb i wneud eu rhan. Mae polisi yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth hefyd, a hynny yn holl adrannau'r llywodraeth. Gall ymchwil a datblygu helpu i ddod o hyd i atebion i ffermwyr ymhen 10-15 mlynedd. Mae angen i'r gadwyn gyflenwi a defnyddwyr fod ar yr un trywydd. Mae yna gyfle enfawr oherwydd bod agweddau'n newid, ac mae ffermwyr am wybod eu man cychwyn a beth y gallant ei wneud. Mae'n bwysig cael sgwrs am y ffordd y gallwn i gyd chwarae ein rhan a chydweithio i greu'r amodau i gefnogi'r nod. Mae dwy neges gyson i'w clywed gan ffermwyr, sef hyder a chyfalaf, a'r cwestiwn y dylem i gyd fod yn ei ofyn yw sut y gallwn helpu ffermwyr i oresgyn y rhwystrau hyn.

22. Diolchodd Zoe i Ceris am y cyflwyniad rhagorol ac am dynnu sylw'n glir at yr heriau.

## Eitem 4 Cyflwyniad CNC a Newid Hinsawdd

23. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Clive Walmsley, CNC, i gyflwyno heriau Newid Hinsawdd o safbwynt CNC.

24. Dechreuodd Clive drwy sôn bod CNC yn rheoli tua 7% o arwynebedd tir Cymru ac felly mae'n rheolwr tir sylweddol yng Nghymru. Dywedodd Clive y bydd yn trafod sut aeth CNC ati i ddeall eu statws carbon net, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir a'r Rhaglen Creu Coetir.

25. Dywedodd Clive fod CNC, yn 2015/2016, wedi dechrau ceisio deall statws carbon Ystâd CNC a'r potensial ar gyfer datgarboneiddio. Crëwyd y Prosiect Carbon Bositif i gyfrifo Statws Carbon CNC. Roedd angen edrych ar ddau brif faes – allyriadau'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau a rheolaeth, ac edrych ar ddal a storio carbon ar yr ystâd.

26. Er mwyn amcangyfrif stociau carbon a dal a storio carbon ar ystâd CNC, roedd angen dealltwriaeth glir o'r gwahanol gynefinoedd. Mae CNC yn rheoli tua 143,000 hectar a'r mwyafrif helaeth yn goetir (tua 80%).

27. Dywedodd Clive fod hwn wedi'i rannu i ganolbwyntio ar gynefinoedd allweddol:

    - Coetiroedd
    - Corsydd a ffeniau
    - Pob cynefin ar briddoedd mawn dwfn

28. Comisiynodd CNC waith i gynhyrchu amcangyfrifon seiliedig ar y data allyriadau a dal a storio carbon gorau sydd ar gael:

    - Ymchwil Coedwig – model carbon coetir CARBINE
    - Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) – mapio cyflwr mawndiroedd ac allyriadau

29. Mae ystâd goetir CNC yn cynnwys:

    - >108,000 hectar o goedwig fasnachol (ystâd goetir Llywodraeth Cymru sydd ar brydles i CNC ac yn cael ei rheoli gan CNC)
    - 1600 hectar o goetir anfasnachol ar warchodfeydd natur

30. Esboniodd Clive ei bod yn bosibl, drwy ddefnyddio'r Model Carbon Coetir, rhagweld dros amser y stociau carbon tebygol a'r cyfanswm tebygol o garbon gaiff ei ddal a'i storio.

31. O ran Mawndir:

    - Defnyddio map mawn unedig Cymru a ddatblygwyd gan CEH ar gyfer Llywodraeth Cymru (mawn dwfn >40cm)

- Cyfanswm yr arwynebedd: 11,345 hectar ar yr ystâd sy'n eiddo i CNC ac yn cael ei rheoli gan CNC
- Mawn dwfn yn ôl math o gynefin:
- 50.6% planhigfa gonwydd
- 9.1% gorgors
- 6.7% brithwaith o gynefinoedd
- 5.8% cors wlyb wedi'i haddasu
- 5.2% cyforgors

32. Cyfrifodd CEH yr allyriadau blynyddol o'r Mawndiroedd:

- Mae mawn CNC yn allyrru 99,653 t CO2e/blwyddyn
  - Mae cyforgorsydd a gorgorsydd sydd bron yn naturiol yn storwyr carbon net
  - Mae gwyddoniaeth gyfredol yn awgrymu bod pob cynefin mawn arall yn allyrwyr net

33. Archwiliwyd senarios adfer:

- 4 senario adfer wedi'u modelu
- Hyd yn oed pe bai'r holl gynefinoedd mawn yn cael eu hailwlychu a'u dychwelyd i gyflwr bron yn naturiol, byddai'r ystâd yn dal i fod yn allyrrydd net

34. Statws carbon net CNC:

- Ein statws carbon net yw'r cydbwysedd rhwng ein hallyriadau a'n cyfansymiau dal a storio carbon
- Rydym yn gollwng llai o garbon o'n gweithrediadau nag a gaiff ei ddal yn flynyddol (ein dal a storio carbon) gan gynefinoedd ar yr ystâd – mae hyn yn rhoi statws carbon positif net i ni

35. Soniodd Clive fod y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd wedi'i sefydlu ers ychydig dros flwyddyn. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd mawndir nid yn unig ar yr ystâd ond ledled Cymru gyfan o ran gweithredu ar fawndiroedd. Mae tua thraean o fawndir Cymru mewn cyflwr bron yn naturiol ac yn debygol o ddal carbon. Mae traean yn lled naturiol. Mae tua thraean o fawndiroedd Cymru wedi eu haddasu, ac mae hyn yn gyfrifol am tua thri chwarter allyriadau nwyon tŷ gwydr mawndiroedd.

    Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndir, 2020-2025

36. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cynnwys:

- Rhaglen bum mlynedd gyda setliadau ariannu blynyddol
- 6 thema weithredu sy’n cael blaenoriaeth
- 3 prif thema drawsbynciol
- Adfer 600-800 ha am bob £1M / blwyddyn – pwyslais ym mlwyddyn 1 ar fawndiroedd wedi'u coedwigo a mawndiroedd wedi'u herydu/draenio.
- 6 aelod o staff
- Pwyslais allweddol ar weithio mewn partneriaeth drwy’r broses Datganiad Ardal a phroses cymorth grant CNC.

37. Rhoddodd Clive drosolwg o'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd gan gynnwys rhaglen cyflawni adfer Mawndiroedd 2020-2021 a lleoliadau’r prosiect.

38. Trafododd Clive Raglen Creu Coetir CNC yn fyr a soniodd mai'r allwedd i'r rhaglen hon yw cael ‘y goeden gywir, yn y lle cywir, am y rheswm cywir’.

39. Mae nifer o elfennau i'r Rhaglen Creu Coetir gan gynnwys:

    - Cyllid Amgen
    - Adolygu Rheoliadau
    - Ymestyn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru
    - Plannu!
    - Gwasanaeth dilysu Glastir
    - Coedwig Genedlaethol
    - Coed trefol ac Isadeiledd Gwyrdd

40. Trafododd Clive y carbon ym moroedd a chynefinoedd rhynglanwol Cymru ('carbon glas') a thynnodd sylw at ble mae'r stociau carbon a’r ardaloedd posibl ar gyfer dal a storio carbon.

41. Daeth cyflwyniad Clive i ben gyda'r pwyntiau allweddol canlynol:

    - Mae deall stoc cynefinoedd sefydliadol yn allweddol i ddeall yr allyriadau, y dal a storio carbon a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli gwell neu newid defnydd tir.
    - Mae diogelu, adfer ac ail-wlychu pob mawndir yn flaenoriaeth allweddol gyda'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (CNC) yn gallu cynnig rhywfaint o gefnogaeth.
    - Creu coetir yw'r prif gyfle o ran newid defnydd tir i storio carbon gan sicrhau bod y goeden gywir yn y lle cywir.

- Lle bo'n berthnasol, mae angen ystyried cynnal ac adfer cynefinoedd rhynglanwol hefyd. Potensial sylweddol i wella carbon glas.

- Mae cynefinoedd eraill yn cynnig llai o botensial ond gallant gyfrannu e.e. coed stryd trefol, gwrychoedd etc.

- Mae rheoli neu greu cynefinoedd yn cynnig manteision lluosog i fioamrywiaeth, cymunedau a lles unigolion – mae'n bwysig dweud nad yw’r cyfan yn ymwneud â charbon.

42. Diolchodd Zoe i Clive am ei gyflwyniad diddorol sy'n cynrychioli llawer iawn o waith y mae CNC yn ei wneud.

## Eitem 5 Cyflwyniad Newid Hinsawdd Confor

43. Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Anthony Geddes i drafod y gwaith y mae Confor yn ei wneud i gefnogi eu haelodau i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.

44. Rhannodd Anthony gyflwyniad gyda'r grŵp yn trafod lliniaru newid hinsawdd o safbwynt y diwydiant coedwigaeth.

45. Soniodd Anthony fod y diwydiant coedwigaeth yn amlweddog, fel y mae Confor. Mae llawer o ddibenion a manteision i goedwigaeth fodern, gan gynnwys:

    - Rhoi hwb i'r economi
    - Amsugno carbon
    - Creu swyddi gwledig
    - Da ar gyfer ffermio
    - Lleihau perygl llifogydd
    - Llefydd i grwydro
    - Cartrefi i fywyd gwyllt

46. Gelwir Confor yn sefydliad 'o’r hedyn i’r felin lifio' ac mae aelodaeth yn cynnwys busnesau ac unigolion ym mhob sector o'r diwydiant coedwigaeth. Mae tua 85% o gynllunwyr coetir Glastir yn aelodau, ynghyd â'r rhan fwyaf o felinau llifio yng Nghymru. Mae dros draean o berchnogion coedwigoedd Cymru yn aelodau hefyd, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r meithrinfeydd planhigion canolig a mawr yng Nghymru.

47. Coedwigaeth gynaliadwy a defnydd cynaliadwy o bren sydd wrth wraidd sefydliad Confor, gyda lliniaru newid hinsawdd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'u hymgorffori'n helaeth yn y gwaith y maent yn ei wneud. Fodd bynnag, yr her fwyaf y maent yn ei hwynebu ar hyn o bryd yw'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.

48. Amlinellodd Anthony y ffigurau canlynol:

- Mae'r DU yn parhau i fewnforio llawer o bren; mae 80% o'r pren a ddefnyddir yn y DU yn cael ei fewnforio ac mae 60% o ddeunyddiau adeiladu'r DU yn cael eu mewnforio

- Disgwylir i'r galw byd-eang am bren dreblu yn yr 20 mlynedd nesaf

- Mae prisiau pren wedi treblu mewn 5 mlynedd (maent bron wedi dyblu yn ystod y 12 mis diwethaf)

- Ar hyn o bryd, mae UDA yn prynu pren o'r Ffindir a Sgandinafia ar ôl cweryla gyda'i phartneriaid yng Nghanada

- Mae Rwsia'n dod ag allforio pren i ben gyda'r gwaharddiad diweddar ar ddeunydd wedi ei lifio a thrafodaethau cyfredol am wahardd allforio deunydd heb ei brosesu

- Mae'r DU yn dibynnu llawer ar bren ac mae'n parhau i ddibynnu mwy a mwy ar adnoddau cyfyngedig.

49. Yn y cyflwyniad gwelwyd diagram a oedd yn dangos pedair echel (Un Diben, Cadwraeth, Amlbwrpas a Defnyddioldeb) gyda chanlyniadau buddiol sy'n gorgyffwrdd (Aur Gwyrdd, Coetiroedd Gwyllt, Rhwydweithiau Brodorol a Diwylliant Coetiroedd).

50. Esboniodd Anthony, cyn plannu coeden, y dylid mynd i'r afael ag argaeledd tir, a dylem ddeall sut y gellir ei alinio â dyfodol cynaliadwy ffermio yng Nghymru. Mae Confor o'r farn, cyn iddynt blannu coeden, fod angen iddynt gydnabod sut y mae newid, datblygiad a chreu ar raddfa fawr yn mynd i weithio. Mae Confor yn edrych ar goedwigaeth a thirfeddiannaeth drwy ddefnyddio modelau a sefydlwyd mewn mannau eraill yn y byd a datblygu cyfres o lwybrau posibl ar gyfer y rhai sydd am blannu.

51. Amlinellodd Anthony ffactorau eraill i'w hystyried gan gynnwys argaeledd coed i’w plannu, niferoedd ffisegol, iechyd planhigion a tharddiad planhigion. Unwaith y bydd ffactorau megis argaeledd tir ac argaeledd planhigion wedi'u hystyried, mae'n rhaid i ni wedyn ganolbwyntio ar greu coetiroedd amlbwrpas a reolir yn iach.

52. Mae Confor wedi bod yn ymwneud â lliniaru newid hinsawdd ers pan gafodd ei sefydlu ond mae bellach yn cymryd rhan weithredol mewn pethau fel cytundebau newid hinsawdd a gyhoeddwyd tua 2008 ac sydd wedi'u hadnewyddu ers hynny.

53. Confor oedd un o'r grwpiau cyntaf i edrych ar y diwydiant y maent yn ei gynrychioli a chydnabod bod angen inni fod yn fwy rhagweithiol.

54. Mae Confor wedi datblygu rhaglen o'r enw 'Wood $CO_2$sts Less' gyda'u his-gwmni Wood for Good. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn ac mae ychydig o brosiectau gwahanol wedi eu sefydlu, gan gynnwys Prosiect Carbon. Bydd y Prosiect Carbon yn dadansoddi cronfa ddata cylch bywyd ac yn darparu gwybodaeth garbon wedi'i diweddaru am gynhyrchion pren.

55. Rhoddodd Anthony grynodeb o fanteision defnyddio pren gan gynnwys:

    - Storio CO2

- Adnewyddadwy, ailddefnyddiadwy ac ailgylchadwy
- Bioddiraddiadwy
- Hydrin
- Deniadol
- Mae’n hawdd ei ddefnyddio yn lle cynhyrchion/deunyddiau mwy niweidiol

56. Mae Confor hefyd yn ymgymryd â nifer o weithgareddau eraill. Mae Confor yn gweithio tuag at Gynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) 2021 gyda Wood for Good ynghyd ag amryw o randdeiliaid eraill i gynrychioli'r sector coedwigaeth a'i allu i gynnig atebion i broblemau a gyflwynir gan newid hinsawdd.

57. Mae Confor yn arwain Grŵp Seneddol Hollbleidiol (APPG) ar goedwigaeth a phlannu coed yn San Steffan. Mae hwn yn gweithio i sicrhau y gall diwydiannau coedwigaeth a phren fod o fudd i'r DU nawr ac yn y dyfodol. Mae'r APPG yn gweithio i sicrhau bod cyflenwad o bren a choetiroedd ar gael yn y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli’n gyfrifol ac yn gynaliadwy.

58. Mae diwydiant coedwigaeth a sector prosesu coed llwyddiannus yn beth da i'r economi, ond rhaid iddo fod yn beth da i'r amgylchedd, bioamrywiaeth, hamdden ac iechyd hefyd. O ystyried gwerth pren, maint y defnydd a'r farchnad ryngwladol bresennol, gellid awgrymu bod y dyfodol dan fygythiad.

59. Dywedodd Anthony mai Confor, yng Nghymru, sy'n cynnal y Grŵp Trawsbleidiol sy'n ceisio cynyddu'r ddealltwriaeth o goetiroedd, coedwigaeth a choed yn y Senedd. Mae’r pynciau a drafodwyd wedi cynnwys plannu coed, addewid maniffesto San Steffan i weld sut y gellir ei gyflwyno’n effeithiol ac yn deg yng Nghymru.

60. Daeth Anthony â’i gyflwyniad i ben drwy amlinellu bod y gwaith y mae Confor yn ei wneud yn amlochrog ac yn ymestyn yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol.

61. Diolchodd y Cadeirydd i Anthony am ei gyflwyniad ac am rannu’r gwahanol lefelau o waith Confor.

## Eitem 6 Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru

62. Trosglwyddodd Zoe yr awenau i Jon Westlake i gyflwyno cynlluniau Llywodraeth Cymru ar newid hinsawdd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) i helpu'r sector i gyrraedd sero-net.

63. Dywedodd Jon y byddai'n sôn yn fyr am y cefndir ac yna'n trafod mwy o'r manylion.

64. Dywedodd Jon fod gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth o dargedau y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â hwy mewn sawl agwedd ar fywyd. Ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy mae ystod eang o dargedau ac amcanion sy’n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Cytundeb Paris ac ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru i gyflawni Sero-net erbyn 2050.

65. Dros y tair blynedd diwethaf, mae llawer o waith dadansoddi polisi wedi'i wneud ac rydym wedi sylweddoli bod angen newid systemau i fynd i'r afael â'r materion newid hinsawdd sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Y rheswm am hyn yw mai dwysáu, bwyd rhad a sicrwydd y cyflenwad bwyd sydd wedi ysgogi polisi amaethyddol y llywodraeth dros y 40 neu 50 mlynedd diwethaf. Mewn llawer achos, mae hyn wedi arwain at gynhyrchu allanolion nad ydynt yn rhan o gynllun busnes fferm. Mae’r rhain yn cynnwys lefelau uchel o nitradau a ffosffad yn rhai o'r cyrsiau dŵr mwyaf gwerthfawr, cynhyrchu amonia sy'n cael effaith sylweddol bosibl ar iechyd y cyhoedd ac allyriadau carbon.

66. Yn fras, o'r 13% o allyriadau Cymru sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, mae llawer o fethan, colledion o fawndiroedd a phriddoedd organig sydd wedi’u herydu neu wedi'u difrodi, ac allyriadau eraill fel defnyddio tractorau ac offer a pheiriannau eraill sy'n aneffeithlon o ran ynni, a'r allyriadau sy’n dod yn sgil oeri ar raddfa fawr yn y diwydiant llaeth.

67. Esboniodd Jon fod hyn yn gosod ambell i gwestiwn polisi sylweddol i Lywodraeth Cymru. Yn ddamcaniaethol, byddai'n bosibl rheoleiddio ar gyfer hyn i gyd, ond byddai'n broses anodd iawn ac mae'n well cymell lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae hyn yn rhagdybio bod cyfres o reoliadau sylfaenol y gallwn ddarparu ychwanegedd drwy gyllid i annog gwneud mwy na’r hyn sy’n ofynnol.

68. Dywedodd Jon, yn achos yr SFS arfaethedig, ei bod yn amlwg yn gynnar y gallai’r byd ffermio gynhyrchu set gyfan o ganlyniadau gwahanol. Ond gan fod ffermio'n gyfres o gamau gweithredu integredig ar draws ystod o dir, i bob pwrpas, pan fyddwch yn tynnu un lifer mae'n agor llawer o gatiau. Felly, mae natur integredig amaethyddiaeth yn golygu y bydd unrhyw beth a gynigir yn y cynllun SFS yn esgor ar amrywiaeth o effeithiau posibl, gyda lliniaru newid hinsawdd yn un o’r rhain o bosibl.

69. O ran lliniaru, mae tua hanner yr allyriadau'n gysylltiedig â methan a da byw. Mae rhai atebion technegol y gallwn eu mabwysiadu mewn perthynas â genomeg a defnyddio gwahanol fathau o borthiant a fydd yn ein helpu i leihau'r allyriadau hynny. Yn ôl Jon, tra bod ffermio da byw yn parhau i fod yn rhan bwysig o amaethyddiaeth yng Nghymru, bydd yna allyriadau enterig cysylltiedig. Felly sut mae mynd i'r afael â hyn yng nghyd-destun Sero-net?

70. Dywedodd Jon fod angen i ni hefyd fynd i'r afael â'r allyriadau sy'n gysylltiedig â phriddoedd organig iseldir a mawn a’i bod yn dda clywed Clive yn trafod rhaglen fawndiroedd CNC. Soniodd Jon fod Llywodraeth Cymru’n bwriadu cefnogi ffermwyr Cymru i adfer mawndiroedd ar eu ffermydd i gyflwr ffafriol. Mewn gwahanol leoliadau, gall y cymhelliant hwn fod yn fwy sylweddol nag eraill.

71. Mae allyriadau o wrtaith artiffisial yn elfen eithaf sylweddol o'r allyriadau amaethyddol sy'n weddill. Hoffai Llywodraeth Cymru i ffermwyr ymgymryd â gwaith cynllunio Rheoli Maetholion fesul cae, a pheidio â defnyddio mwy nag sydd angen o unrhyw wrtaith sy'n angenrheidiol i dyfu beth bynnag sydd yn y cae hwnnw. Awgrymodd Jon pe bai hyn yn cael ei weithredu'n briodol mewn ardal ddigon mawr yng Nghymru, bydd yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y defnydd o wrtaith artiffisial.

72. Dywedodd Jon, ochr yn ochr â hyn ac fel rhan o'r un dull, y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn hoffi gweld ystod llawer mwy amrywiol o dywyrch ar ffermydd da byw yng Nghymru, gyda chyfran sylweddol o lysiau bachu nitrogen ynddynt yn ogystal ag

amrywiaeth o rywogaethau eraill o blanhigion. Esboniodd Jon fod sawl rheswm am hyn:

- Bachu nitrogen:
    - Y cyfle i gymryd lle gwrtaith artiffisial i ryw raddau
    - Cynnig dull rhannu tir yn hytrach nag arbed tir
- Mabwysiadu tywyrch mwy amrywiol:
    - Bydd planhigion sydd yn bennaf yn rhai brodorol yn arwain at fwy o fioamrywiaeth
    - Lleihau rhai allyriadau

73. O ran cyfleoedd dal a storio carbon, mae targed plannu coed sylweddol iawn yma yng Nghymru. Yn y tymor byr, erbyn 2030 mae CCC y DU yn dweud bod angen 43,000ha ychwanegol o goed arnom. Mae'n bosibl yr hoffai Llywodraeth Cymru weld mwy o amaeth-goedwigaeth yn cael ei chyflwyno ar dir fferm yng Nghymru a'r coed hynny'n cael eu hintegreiddio â'r gwaith amaethyddol. Fel rhan o'r dull bioddiogelwch, hoffem gael gwrychoedd perimedr sy'n ddigon llydan i atal gwartheg yn arbennig rhag cael cyswllt cymdeithasol â'u cymdogion. Mae cydweithwyr milfeddygol yn awgrymu y gallai hyn fod yn ddull defnyddiol o leihau'r broses o drosglwyddo clefydau o fferm i fferm ond mae hefyd yn ddull bioddiogelwch da ac mae'n fuddiol o ran dal a storio carbon hefyd.

74. O ran cyfleoedd i blannu coed yn yr amgylchedd ehangach, mae Llywodraeth Cymru'n siarad â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, er enghraifft, ynghylch atgyfnerthu coetiroedd presennol ac ailgyflwyno coetir i ardaloedd lle bu coetir unwaith fel rhan o'u rhaglen newid tirwedd. Bydd yn rhaid inni dderbyn, yn sgil graddfa'r camau gweithredu y mae CCC y DU yn gofyn amdanynt, y bydd newid yn y dirwedd. Mae cydweithwyr polisi coedwigaeth yn siarad â CNC ac eraill am y ffordd y gallai hyn i gyd weithio a sut rydym yn integreiddio newid i'r dirwedd bresennol.

75. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar adfer mawndiroedd/morfa heli/tir isel/ffen/pridd organig a bydd angen iddynt siarad ag ystod eang o ffermwyr ynghylch sut y gallem wneud i hynny ddigwydd a sut y gallem dalu amdano.

76. Y dull presennol yw talu am ddarparu allbynnau yn hytrach na chost mewnbwn, sy'n decach i ffermwyr ac sy'n creu marchnad ar gyfer cynhyrchion amaethyddol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n sefydlu gwerthoedd ar gyfer yr holl ganlyniadau y maent yn eu ceisio.

77. O ran y newid system a sut y gallai hynny weithio, mae Llywodraeth Cymru yn glir iawn y bydd angen iddynt ddarparu gwasanaeth cymorth a chynghori sylweddol neu wasanaeth trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd. Gan y gallai hwn fod yn newid mawr iawn ac yn newid hirdymor, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen iddynt gefnogi ffermwyr wrth iddynt deithio drwy'r cyfnod hwn o newid. Esboniodd Jon mai'r uchelgais yw sefydlu'r Bil Amaethyddol gyda chyfnod trosiannol lle mae'r system taliadau cymorth incwm bresennol yn lleihau'n raddol, a'r cynllun newydd yn cael ei gyflwyno yn ei lle.

78. Eglurodd Jon fod hyn i gyd yn dal i fod yn y cyfnod cynnig nes iddynt orffen dadansoddiad economaidd o'r cynigion y maent yn eu cyflwyno, a bydd hyn yn debygol o gymryd peth amser oherwydd cymhlethdod y cyfan.

79. Diolchodd Zoe i Jon am siarad â'r grŵp ac am grynhoi'r hyn sy'n bwnc enfawr.

## Eitem 7 Trafodaeth Panel Newid Hinsawdd

80. Croesawodd y Cadeirydd y grŵp i holi'r panelwyr.

81. Soniodd John Browne, CNC, i awgrym gael ei wneud mewn cyfarfod blaenorol o’r Fforwm bod nifer o gyfrifanellau carbon ar gael. Gofynnodd John i Ceris, drwy'r gwaith y mae'r NFU a'r gweithgor yn ei wneud, a argymhellir amrywiaeth o gyfrifianellau carbon neu un yn benodol i gael rhywfaint o gysondeb yn y broses. Dywedodd Ceris y byddai aelodau ar y cyfan am weld un cyfrifiannell unedig ond mae hynny'n waith enfawr a drud, nid yn unig ar gyfer ei adeiladu ond ar gyfer ei ddiweddaru’n barhaus. Yn absenoldeb unrhyw beth sy'n cael ei yrru gan bolisi, mae'r farchnad wedi llenwi'r bwlch. Dywedodd Ceris eu bod yn gweithio gyda datblygwyr y tair prif gyfrifiannell i geisio gwella'r hyn sydd eisoes ar gael ac i roi adborth y mae aelodau eisoes wedi'i ddarparu. Awgrymodd Ceris efallai y gallai polisi chwarae rhan o ran creu gwell safon neu fframwaith ar gyfer cyfrifianellau. Soniodd Jon y bydd cyfrifo carbon yn rhan annatod o'r arfarnu cynnar a wneir ar ffermydd ar gyfer yr SFS arfaethedig. Y rheswm am hyn yw y gellir cael sgwrs gyda ffermwyr unigol ynghylch symud tuag at Sero-net, beth yw eu hôl troed presennol, sut y gallant ei leihau a beth fydd y manteision economaidd tebygol o wneud hynny.

    Soniodd Ceris fod DEFRA o bosibl yn mynd i gomisiynu prosiect ymchwil i gymharu'r gwahanol gyfrifianellau i weld a yw'r gwahaniaethau'n gyson a cheisio cael rhywfaint o dryloywder yn y broses. Soniodd Ceris fod rhai cyfrifannellau cychwynnol mwy syml ar gael hefyd, megis system ar-lein AHDB a all helpu ffermwyr.

    Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod adolygu cyfrifianellau wedi’i ystyried fel rhan o Amaethyddiaeth Doeth o ran Hinsawdd ac addasu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd Sarah i Jon a yw'r pethau y mae'n eu cynllunio yn adeiladu ar y gwaith a wnaed. Dywedodd Jon eu bod wedi siarad â Phrifysgol Bangor am y gyfrifiannell y maent wedi'i datblygu ond ei bod yn dechnegol iawn ac nid yw'n hawdd ei defnyddio.

    Dywedodd Dr George Fisher, Coleg Cambria, fod cael rhywfaint o gysondeb gyda chyfrifianellau yn bwysig. Ni fydd cyfrifianellau'n sefydlog a bydd angen iddynt ddatblygu yn unol â’r ymchwil a'r syniadau diweddaraf. Er enghraifft, rydym i gyd yn trafod potensial cynhesu byd-eang methan. Gofynnodd George sut mae ymdrin â'rdatblygiadau cyfrifiannell hyn ar lefel fferm/NFU/llywodraeth. A oes angen fforwm arnom i gytuno a gweld sut mae'r cyfrifianellau hyn yn datblygu? Awgrymodd Jon y gallai adolygu polisi’n gyson ddod yn 'norm' oherwydd, wrth i bethau newid, bydd yn rhaid inni addasu'r hyn a geisiwn gan ffermwyr yn gyfnewid am yr arian y mae'r llywodraeth yn ei ddarparu. Os bydd modelau newydd a gwell yn dod i’r fei, bydd yn rhaid i ni werthuso a phenderfynu a ddylid cadw at yr hyn sydd gennym neu chwilio am rywbeth newydd. Bydd hon yn broses sy'n newid yn barhaus gyda'r rhestr hefyd yn newid dros amser. Bydd cael un gyfrifiannell yn helpu i symleiddio dyluniad y cynllun ac yn helpu i symleiddio'r gofyniad adrodd ond mae bob amser yn fantais cael gwell data.

Cytunodd Ceris â sylwadau Jon ynglŷn â'r cyfrifianellau newydd sy'n dod i'r amlwg. Dywedodd Ceris y gallai un gyfrifiannell genedlaethol weithio ond efallai y byddwn yn cael trafferth gyda chymhariaethau a chanllawiau rhyngwladol.

Soniodd Anthony Geddes, Confor, fod y gyllideb ddomestig draean yn llai nag yr oedd yn 2018. Gofynnodd i Jon ble y byddwn yn gweld y bylchau hynny'n realistig a beth yw'r sgwrs gyfredol ynghylch creu cyfleoedd buddsoddi i'r sector preifat, megis cyfle i rannu tir, cynhyrchiant a charbon. Esboniodd Jon fod yna rai syniadau cychwynnol nad ydynt yn bolisi o bell ffordd. Soniodd Jon fod y gost gronnol dros amser ar gyfer y model presennol ar gyfer plannu coed yn sylweddol iawn. Mae diben y cymorth a roddir i ffermio yn ymwneud â'r ymateb integredig. Mae cydweithwyr polisi Llywodraeth Cymru a DEFRA yn ystyried a oes cyfle i gyflwyno plannu coetiroedd i'r hyn sydd yn disodli Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE (ETS). Byddai hyn yn syniad diddorol, ond byddai'n cymryd cryn amser ac ymdrech i'w wireddu.

82. Gofynnodd Zoe i Dr George Fisher ddarparu mwy o wybodaeth am y prosiect y mae Coleg Cambria yn gweithio arno. Dywedodd George fod Coleg Cambria newydd ddechrau sefydlu Prosiect Fferm Sero-net ar Gampws Llysfasi. Mae'r cyllid yn rhan o gyllid y Fargen Dwf a weinyddir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB.) Mae dwy brif elfen i'r prosiect o ran datblygu cyfleusterau:

- Adeilad newydd yn y coleg: canolfan i ddarparu ar gyfer addysg, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi o ran popeth sy'n gysylltiedig â ffermio Sero-net
- Y fferm yn Llysfasi: uned laeth, defaid (ucheldir ac iseldir) a chig eidion

Soniodd George mai dechrau'r datblygiad ganol 2022 yw'r bwriad ar hyn o bryd, fel ei fod yn cael ei agor ym mis Medi 2023. Y weledigaeth yw cael Gogledd Cymru Sero-net a chefnogi'r weledigaeth hon drwy gyfnewid gwybodaeth nid yn unig gyda'r ffermwyr a'r rheolwyr tir presennol ond hefyd gyda'r genhedlaeth nesaf. Dywedodd George yr hoffent ddangos a threialu gwahanol ddulliau a thechnolegau. Mae tair colofn y prosiect hwn yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd Ceris yn gynharach, ond yn arbennig o ran hyder a gwybodaeth i helpu ffermwyr i gyrraedd y targed Sero-net. Dywedodd George fod arolwg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac yr hoffai ei anfon at aelodau'r Fforwm pan gaiff ei gyhoeddi ymhen ychydig wythnosau.

Diolchodd Zoe i George am ymuno â'r cyfarfod a chyflwyno'r prosiect i'r grŵp.

83. Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod effeithlonrwydd yr holl gyfrifianellau'n mynd i ddibynnu ar y data sy'n cael eu bwydo iddynt. Mae'r cynllun BPS presennol yng Nghymru yn casglu cyfoeth eang o wybodaeth ar gyfer pob daliad yng Nghymru. Gofynnodd tybed pa gynlluniau sydd ar droed i ddefnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer yr SFS newydd wrth symud ymlaen. Dywedodd Jon y bydd y data hynny'n cael eu defnyddio ble bo hynny'n bosibl, ond eu bod yn destun amodau GDPR. Esboniodd Jon fod yn rhaid i ba system bynnag a ddatblygir allu cyfrannu'n ôl at y system sydd gennym yng nghyswllt BPS, yn enwedig ar gyfer mapio a thirddaliadau. Amlinellodd y Papur Gwyn fod gennym ddiddordeb mawr mewn cynnwys rhai o'r cyfleoedd synhwyro o bell a gallu eu mapio ar ein cronfeydd data daearol presennol.

84. Dywedodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA), nad yw treth garbon George Eustice ar fewnforion yn syniad da gan y byddai treth garbon ar bethau

‘wedi eu cynhyrchu gartref’ hefyd. Felly, byddai'n well talu pobl am gynnyrch carbon isel drwy gymhelliant. O ran tenantiaid, y prif beth sy’n dal carbon yw coed, ac fel y soniwyd, mae coed yn broblem i denantiaid. Hyd yn oed os yw tenant yn plannu coeden gyda chaniatâd, mae'r landlord yn debygol o ddod o hyd i ffordd o gael unrhyw daliadau yn ôl. Wedi dweud hynny, mae gwrychoedd yn bosibilrwydd i ffermwyr sy'n denantiaid. Gallai tenantiaid fod â chyfle i gadw da byw a reolir yn helaeth yn yr ucheldiroedd (e.e. glaswelltir a reolir) hefyd. Atgoffodd Dennis y grŵp fod astudiaeth wedi'i chynnal gan HCC a Phrifysgol Bangor a ddangosodd fod gan ucheldir a oedd yn cael ei bori'n helaeth yn y DU ôl troed carbon o ddim ond chwarter cyfartaledd y byd ar gyfer y lleoliad hwnnw. Awgrymodd Dennis nad yw unrhyw gyngor a chymorth ar gyfer cyflwyno'r systemau hyn yn amodol ar fod y ffermwyr yn perthyn i'r cynllun newydd, oherwydd os na all ffermwyr sy’n denantiaid ymuno â'r SFS, ni fyddant yn gallu cael y grantiau na'r cyngor chwaith. Soniodd Dennis hefyd nad yw newidiadau i gyfraith tenantiaeth yn debygol o ddigwydd a chredai i ddechrau y gallai amaeth-goedwigaeth fod yn ffordd o gael caniatâd i blannu coed. Fodd bynnag, ers hynny mae Dennis wedi darganfod bod llawer o gytundebau tenantiaeth yn cynnwys cymal sy'n nodi na all y tenant dyfu dim am fwy na blwyddyn. Dywedodd Dennis os na fydd cyfreithiau tenantiaeth yn cael eu newid, mae angen cynnwys pethau eraill yn yr SFS y gall tenantiaid eu rhoi ar waith.

Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, os na all ffermwyr sy’n denantiaid ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, yna bydd dyluniad y cynllun wedi methu. Rhaid i ffermwyr sy'n denantiaid allu bod yn rhan o'r SFS ar delerau cyfartal. Cytunodd Jon â sylwadau Rachel ond dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed gyda'r TFA a chyfreithwyr i sicrhau na fydd hynny’n digwydd.

Soniodd Dennis fod ystadegau plannu coed yn cael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf. Mae angen edrych ar blannu coed o safbwynt byd-eang hefyd. Os caiff coed eu plannu ar y raddfa a ragwelir, bydd llawer o dir amaethyddol a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu’n cael ei golli. Dywedodd Jon fod llawer o ddadleuon ynghylch anfon cynhyrchiant amaethyddol a phethau eraill dramor. Fel y soniwyd yn gynharach gan Anthony, mae’r rhan fwyaf o'n problemau carbon yn y sector adeiladu’n cael eu hanfon allan o’r wlad drwy fewnforio pren o dramor. Bydd yn rhaid inni gydbwyso pethau. Soniodd Jon mai un maes na soniodd Dennis amdano yw carbon pridd neu ddeunydd organig pridd ac mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys gofalu am iechyd pridd ac ansawdd pridd.

## Eitem 8 Diweddariad CNC

85. Rhoddodd Bob Vaughan, CNC, yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol. Cyn y cyfarfod, anfonwyd Papur Diweddaru at yr aelodau gydag ychydig o wybodaeth.

86. **Arolwg y Fforwm:** Darparwyd crynodeb o ymatebion i’r arolwg yn y Papur Diweddaru. Awgrymwyd bod y pwnc hwn yn cael ei ychwanegu at agenda nesaf y cyfarfod er mwyn i'r grŵp drafod sut yr hoffent symud y grŵp yn ei flaen a chydweithio i gyflawni camau gweithredu.

***PG Mehefin 01: Bronwen Martin, CNC, i ychwanegu’r ymatebion i Arolwg y Fforwm at agenda cyfarfod mis Medi.***

87. **Diweddariadau Fforymau:**

- Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF)
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Grŵp Gweithredu a Chynghori Morol Cymru (WMAAG)
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru

Soniodd Bob fod rhai aelodau hefyd yn mynychu rhai o gyfarfodydd y fforymau yma. Gofynnodd Bob a hoffai'r grŵp ymgysylltu â rhai o'r fforymau eraill nad oes ganddynt gymaint o gyswllt â'r Fforwm hwn. Gofynnodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, a oes unrhyw wybodaeth gan y Grŵp Mynediad i Ddŵr Mewndirol sydd wedi dod yn fwyfwy pwysig yn ddiweddar. Soniodd Bernard fod hwnnw'n Is-grŵp y Fforwm Mynediad Cenedlaethol. Dywedodd Bob y gellir darparu mwy o fanylion a gwybodaeth am y grŵp hwn. Gofynnodd Bernard a ellir darparu crynodeb byr ynghylch yr hyn y mae'r grŵp yn ei wneud a'r hyn y maent yn delio ag ef ar hyn o bryd.

***PG Mehefin 02: Bronwen Martin, CNC, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y Grŵp Mynediad i Ddŵr Mewndirol.***

88. **Systemau draenio cynaliadwy (SuDS):** Bwriedir cynnal sesiwn gweithdy ar y cyd i drafod SuDS, gydag aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn bresennol. Byddai cynnwys aelodau o'r ddau Fforwm yn y sesiwn hon yn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ymdrin â'r pwnc yn cael ei fabwysiadu ac y byddai hynny'n arbed unrhyw ddyblygu trafodaethau.

    Croesewir unrhyw awgrymiadau i helpu i lywio cynnwys a strwythur y sesiwn arfaethedig gan gynnwys astudiaethau achos. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu cyn bo hir.

***PG Mehefin 03: Aelodau i gynnig unrhyw awgrymiadau ar gyfer y gweithdy SuDS arfaethedig a'u hanfon drwy e-bost at Bronwen Martin, CNC.***

89. **Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol Llarwydd:** Roedd y papur diweddaru yn cynnwys gwybodaeth gryno ynghylch beth sy'n rhaid i rywun ei wneud os bydd ei larwydd yn cael Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol?'

    Mae rhagor o wybodaeth am iechyd coed ar gael ar y gwefannau canlynol: Llywodraeth Cymru (Phytophthora ramorum - Strategaeth ar gyfer Cymru); CNC (Iechyd Coed yng Nghymru); Forest Research (clefyd Ramorum); a GOV.UK (Atal Cyflwyno a Lledaenu Plâu a Chlefydau Coed).

    Gofynnodd Zoe beth ddylai aelod o'r cyhoedd ei wneud os yw'n gweld coeden onnen gyda'r hyn mae'n amau yw clefyd coed ynn. Dywedodd John Browne, CNC, fod clefyd coed ynn yn glefyd endemig sy'n cael ei gario gan y gwynt ac sydd ym mhobman, ond nad yw'n hysbysadwy. Y broblem fwyaf os ydych yn dirfeddiannwr yw bod yn ymwybodol ohono ac o wahanol gamau'r clefyd, felly os bydd rhywun yn ei weld, dylai siarad â'r tirfeddiannwr lleol. Dywedodd Bob fod CNC wedi cael cyfarfodydd gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru ynglŷn â bwrw ymlaen â hyn gan ei fod yn

broblem fawr. Dywedodd John fod cyngor Llywodraeth Cymru ar reoli coed ynn a’r clefyd hwn wedi'i gwblhau hyd at 75%, o'r hyn a glywodd gan Chris Jones. Dyma'r canllawiau y bydd pobl yn gallu eu gweld er mwyn ystyried pa gamau y dylent eu cymryd fel tirfeddianwyr.

Dywedodd Dominic Driver, CNC, yn anffodus, os gwelwch chi goeden onnen, mae’n debygol y bydd y clefyd arni. Dywedodd Dominic fod gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori y gall pobl ddefnyddio Adnodd Tree Alert Forest Research. Os bydd unrhyw un yn sylwi ar goeden beryglus, mae'n werth rhoi gwybod i CNC.

90. **SoNaRR:** Cyhoeddwyd ail Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR2020) ar gyfer Cymru mewn dau gam o fis Rhagfyr 2020. Lansiwyd yr adroddiad llawn ym mis Mawrth 2021, yn dilyn ein cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn a gynhaliwyd ar Fawrth y 1af. Mae Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020 a phob un o'r penodau, gan gynnwys y dystiolaeth dechnegol a’r asesiad o anghenion tystiolaeth, ar wefan CNC.

91. **Afancod:** Soniodd Bob fod CNC wedi penderfynu rhoi trwydded i ryddhau hyd at 6 afanc i dir caeëdig yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn rydym wedi ystyried yr holl faterion a gofynion cyfreithiol perthnasol, ac y bydd y drwydded yn sicrhau bod y lefel briodol o ddiogelwch amgylcheddol yn cael ei darparu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CNC - Rhyddhau Afancod Eurasian i dir caeëdig yng Nghors Dyfi - Dogfen Penderfyniad (Saesneg).

Soniodd Dennis Matheson, TFA, fod yna brosiect sy'n cynnwys plannu ar lannau afonydd a rhyddhau afancod yn yr Alban neu Northumberland. Dywedodd Bob fod yr afancod yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi wedi cael eu rhyddhau i dir caeëdig.

92. **Afonydd ACA:** Mae prosiect wedi'i sefydlu yn CNC ar gyfer ansawdd dŵr afonydd ACA. Mae cyflawni prosiect Afonydd ACA, ymchwilio i a mynd i'r afael â llygredd ffosffad mewn afonydd, gan gynnwys Afonydd Gwy, Wysg, Cleddau, Teifi Isaf a Dyfrdwy, yn rhan o Gynllun Corfforaethol CNC ar gyfer 2021-22. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect gyda Ceri Davies fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol a Ruth Jenkins fel Swyddog Gweithredol y Prosiect. Rhian Thomas yw Rheolwr y Prosiect erbyn hyn.

Mae tair ffrwd waith wedi'u sefydlu i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen:

- Ffrwd waith 1 (Arweinydd: Gideon Carpenter) - yn gweithio ar ddarparu cyngor a datganiadau sefyllfa.
- Ffrwd waith 2 (Arweinydd: Sue Hearn) - ar y safonau ansawdd dŵr a'r asesiadau cydymffurfio.
- Ffrwd waith 3 (Arweinydd: I'w gadarnhau) - ar welliannau ansawdd dŵr. Rydym hefyd yn cysylltu â phedwaredd ffrwd waith (Arweinydd: Helen Wilkinson) ar fonitro tystiolaeth.

Mae yna hefyd Uwch Grŵp Defnyddwyr gyda chynrychiolwyr ar draws y swyddogaethau perthnasol yn CNC a’r ardaloedd daearyddol. Mae’r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd. Cyfarfu Grŵp Goruchwylio Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ddiwedd mis Mai.

Mae CNC wedi cyhoeddi Cyngor wedi'i ddiweddaru i awdurdodau cynllunio ddiwedd mis Mai. Mae ar gael ar ein gwefan ac mae’n rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio

ynghylch datblygiadau a allai gynyddu ffosfforws mewn ACA afonydd ac sy'n destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) - Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws.

Soniodd Bob fod gwaith yn mynd rhagddo yn y cefndir o ran dosrannu ffynonellau a gellir darparu diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

93. **Tomenni Glo:** Soniodd Bob fod llawer o waith yn mynd rhagddo'n fewnol gyda Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Glo ac Awdurdodau Lleol ynghylch y problemau a ddeilliodd o lifogydd 2020 ac yna eto y gaeaf diwethaf. Roedd llithriadau mewn dau neu dri safle gwastraff glo mawr a mathau eraill o safleoedd gwastraff. Mae CNC wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo i sefydlu asesiadau risg safonol. Y diddordeb i CNC yw'r effaith y gallai'r llithriadau hyn eu hachosi ond hefyd nifer y tomenni sydd wedi'u lleoli ar safleoedd Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae CNC wedi ailasesu'r holl safleoedd a reolir gan CNC ac mae'r Awdurdod Glo wedi asesu'r holl safleoedd ar draws De Cymru a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos gydag asesiad risg cyffredin o'r holl safleoedd hynny, a bydd yn nodi ar ba rai o'r safleoedd y bydd gwaith yn cael ei wneud.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith edrych ar y ddeddfwriaeth ynghylch tomenni, a disgwylir i ymgynghoriad gael ei lansio'n fuan ar newidiadau y gallai fod eu hangen i wneud y gwaith o weithredu a rheoli'r safleoedd hyn yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

## Eitem 9 Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Aelodau eraill o Fforwm Rheoli Tir Cymru

94. **Undeb Amaethwyr Cymru:** Soniodd Bernard Griffiths fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi bod yn lobïo ASau San Steffan ynglŷn â chytundeb masnach Awstralia/y DU. Mynychodd cynrychiolwyr Undeb Amaethwyr Cymru gyfarfod rhanddeiliaid DEFRA i drafod y gwaith o ddatblygu polisi gwrtaith sy'n cyd-fynd â llawer o'r trafodaethau yn y cyfarfod heddiw. Dywedodd Bernard ei bod yn destun pryder bod pobl yn pwyso am atebion fferm gyfan. Os bydd pob ffermwr yn cael ei orfodi i ddilyn yr un llwybr, bydd hynny'n golygu y bydd y premiwm ar gyfer ffermwyr arbenigol yn diflannu.

95. **NFU Cymru:** Soniodd Rachel Lewis-Davies fod y cyd-destun y mae ffermio yng Nghymru yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd yn peri pryder mawr. Mae NFU Cymru wrthi'n gweithio i ddatblygu safbwynt polisi ar blannu coed a dylai hwn fod ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae hyn yn golygu mai ffermwyr yw'r ateb i rai o'r targedau y mae Llywodraeth Cymru a CCC y DU yn eu sefydlu. Mae'n ymwneud â sut y gellir integreiddio coed yn effeithiol yn y system ffermio yn hytrach na'i disodli. Yn anffodus, rydym eisoes wedi gweld colli ffermydd i blannu coed ar raddfa fawr gan fuddsoddwyr o'r tu allan i Gymru nad oes ganddynt ddiddordeb yn y tir na'r gymuned. Soniodd Rachel fod NFU Cymru yn ceisio meithrin cysylltiadau â CNC a hoffai ofyn am restr wedi'i diweddaru o gysylltiadau rhanbarthol. Dywedodd Martyn Evans fod Gavin Bown wedi'i benodi'n Bennaeth Gweithrediadau'r Canolbarth yn ddiweddar a bod Siân Williams a Martin Cox bellach yn rhannu rôl Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin. Dywedodd Martyn eu bod yn y broses o ddiweddaru'r siart a gallent ei ddosbarthu i'r grŵp.

***PG Mehefin 04: Bronwen Martin, CNC, i ddarparu rhestr wedi'i diweddaru o gysylltiadau rhanbarthol CNC i Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru.***

96. **Confor:** Soniodd Anthony Geddes y bydd Confor yn dosbarthu dyddiadau ar gyfer y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol (CPPG) yn y Senedd cyn bo hir. Dywedodd Anthony y byddai ganddo ddiddordeb mewn cysylltu â Rachel i drafod y papur y mae NFU Cymru yn ei ddatblygu ynglŷn â'r safbwynt polisi ar blannu coed. Dywedodd Anthony fod Confor yn cydnabod bod methiannau hanesyddol o ran plannu coed a bod tirfeddianwyr absennol yn ffactor arwyddocaol iawn. Mae hwn yn ddarn o waith lle mae Confor yn ceisio dod o hyd i ddulliau a ffyrdd amgen synhwyrol o ymgysylltu â thirfeddianwyr a chymunedau i sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan ac yn bartïon hyfyw.

97. **CLA:** Soniodd Fraser McAuley fod CLA yn ceisio sefydlu rhywbeth yn y Senedd a fydd yn canolbwyntio ar gynhyrchiant gwledig a gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol unwaith y bydd pethau ar waith. Dywedodd Fraser fod CLA yn cynnal cyfarfod gyda DEFRA a Llywodraeth Cymru ar fferm un o’i haelodau ddechrau'r mis nesaf gobeithio, a bydd yn rhoi crynodeb byr i'r grŵp yn dilyn y cyfarfod. Mewn perthynas â COP26, mae'r CLA yn casglu gwybodaeth gan ei haelodau ynghylch newid hinsawdd a bydd yn darparu dogfen o astudiaethau achos.

98. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson fod TFA Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyfraith tenantiaeth a mynediad at gynlluniau. Mae'r TFA yn dal i aros i'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin gael ei chyhoeddi gyda gwybodaeth i ffermwyr sy'n denantiaid ynghylch Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

    Soniodd Dennis ei fod wedi cael manylion cysylltiadau CNC sy'n ymwneud â mynediad. Mae Dennis yn bwriadu cysylltu â'r bobl hyn i drafod mater beiciau sgramblo yng nghefn gwlad. Soniodd Martyn Evans, CNC, fod CNC yn gweithio gyda Heddlu De Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar ymgyrchoedd i atal ac arafu gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd. Awgrymodd Martyn y dylai Dennis siarad â'r heddlu ond efallai dechrau gyda Gill Wells yng Nghanolbarth Cymru oherwydd y bydd hi’n gweithio gyda'r Rheolwr Tir ac Asedau lleol, a fydd yn ei dro mewn cysylltiad â'r heddlu yno. Awgrymodd Zoe efallai y gellid ychwanegu'r pwnc hwn at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cytunodd Martyn gan ddweud y gallai cynrychiolydd o'r heddlu gael gwahoddiad ynghyd â Rheolwr Tir ac Asedau CNC ar gyfer y Canolbarth.

***PG Mehefin 05: Bronwen Martin, CNC, i ychwanegu gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

Dywedodd Dennis ei fod wedi gofyn pwy oedd Gweinidog yr Amgylchedd newydd Llywodraeth Cymru; Julie James AS yw’r Gweinidog Newid Hinsawdd a Lee Waters yw'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd tra bod Lesley Griffiths yn parhau i fod yn Weinidog Materion Gwledig.

Soniodd Dennis fod tyfu cnydau sy'n addas ar gyfer ailwlychu mewndiroedd yn y ffeniau yn cael ei alw'n ‘paludiculture' ac nad oedd yn siŵr a oedd unrhyw aelodau wedi clywed am hyn o'r blaen.

## Eitem 10 Gweithdy Datganiadau Ardal a'r Fforwm

99. Rhoddodd Marc Williams, CNC, drosolwg byr o'r Gweithdy arfaethedig. Dywedodd Marc fod llawer o waith wedi bod yn mynd rhagddo yn y cefndir gyda'r Arweinwyr Datganiadau Ardal i baratoi ar gyfer y gweithdy.

100. Soniodd Marc fod CNC wedi derbyn rhai pryderon am hyd y gweithdy. Yn anffodus, gyda'r cyfyngiadau presennol, ni fydd cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Mehefin yn bosibl. Gallwn edrych ar fyrhau hyd y gweithdy i awr a hanner neu ddwy awr ar y mwyaf. Os ydym am archwilio'r opsiwn o gynnal y digwyddiad wyneb yn wyneb, yna byddai'n rhaid iddo fod yn ddiweddarach, ond ar hyn o bryd mae peth ansicrwydd pryd fyddai hynny. Dywedodd Marc ein bod am elwa cymaint â phosibl o'r digwyddiad, felly mater i'r aelodau yw penderfynu sut y byddai'n well ganddynt i'r digwyddiad gael ei gynnal.

101. Awgrymodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, ohirio'r digwyddiad a'i gael yn gyfarfod wyneb yn wyneb. Byddai hyn yn gweddu i'w sefydliad oherwydd y pwysau presennol sydd arnynt.

102. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, ei bod yn gwerthfawrogi'r holl waith sydd wedi cael ei wneud ar gyfer y digwyddiad. Dywedodd Rachel mai awr neu awr a hanner yw tua'r uchafswm amser y maent wedi teimlo sy'n ymarferol ar gyfer digwyddiadau rhithwir. Awgrymodd Rachel nad mis Mehefin yw'r amser gorau ar gyfer y digwyddiad mewn gwirionedd a chytunodd â Bernard ynghylch gohirio'r digwyddiad nes y gellir ei gynnal wyneb yn wyneb.

103. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei bod yn hanfodol i fwy o ffermwyr ddod i'r digwyddiad. Dywedodd Marc mai digwyddiad ar gyfer cynrychiolwyr y sefydliadau yw hwn i bob pwrpas.

104. Dywedodd Martyn Evans na fydd y gwaith paratoi sydd eisoes wedi'i wneud yn ofer. Mae'n swnio'n synhwyrol cael y digwyddiad yn ddiweddarach fel y gellir ei gynnal wyneb yn wyneb a'i ailadrodd mewn ffordd debyg i'r digwyddiad blaenorol. Awgrymodd Martyn y byddai mis Medi'n bosibl os bydd y sefyllfa'n caniatáu.

105. Dywedodd Marc y byddai'n rhaid i ni edrych ar y cyfyngiadau a pholisi CNC ar gyfer cyfarfod. Gallwn ei adolygu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

106. Gofynnodd Zoe a fyddai mis Medi yn amser cyfleus i aelodau pe bai cyfyngiadau a pholisi'n caniatáu. Cytunodd Rachel y byddai diwedd yr haf yn well. Cadarnhaodd Marc y byddai'n ddelfrydol cael nifer o gynrychiolwyr sefydliadau'r Fforwm yn bresennol.

107. Awgrymodd Bob Vaughan, CNC, y gellir anfon yr amserlen a'r wybodaeth ymlaen llaw fel bod pawb yn ymwybodol o'r amcanion. Cytunodd Marc a dywedodd y byddai'n hoffi rhoi digon o amser i bobl feddwl am y pwnc, y cwestiynau, y thema a'r grwpiau trafod.

108. Holodd Rachel am y prosiectau y soniwyd amdanynt mewn gohebiaeth. Cadarnhaodd Marc fod hyn yn cyfeirio at astudiaethau achos neu siaradwyr posibl a allai ddarparu cyflwyniad yn ymwneud â'r thema yn y digwyddiad.

109. Awgrymodd Zoe os yw'r tîm Datganiadau Ardal yn chwilio am atebion i gwestiynau penodol, efallai y gallent drefnu cyfarfod byr neu gysylltu ag aelodau drwy e-bost. Dywedodd Marc y byddai'n codi hyn gyda'r tîm. Gwirfoddololdd Rachel i gymryd rhan mewn trafodaeth fer ynglŷn â'r digwyddiad hwn neu gwestiynau am y Datganiadau Ardal.

## Eitem 11 Unrhyw Fater Arall

110. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 6ed Medi 2021.

111. Diolchodd Zoe i bawb am gymryd rhan ac i'r holl westeion a ymunodd â'r cyfarfod.

## Diwedd y cyfarfod